

## Neges gan Gadeirydd ein Bwrdd

### Datganiad Sicrwydd y Bwrdd

Lluniwyd y Datganiad hwn i gefnogi Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) cyntaf Dŵr Cymru, yn unol ag Egwyddorion Arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, a Fframwaith DWMP Water UK.

Mae'n adeiladu ar ein Gweledigaeth 2050, Cyfarwyddiadau gan ein Rheoleiddwyr, ein Rhanddeiliaid, a'n Cwsmeriaid. Mae'r cynllun yn adlewyrchu canllawiau strategol Llywodraeth Cymru a nodwyd i ni ym mis Awst 2023, sy'n nodi bod yn rhaid i dystiolaeth a gynhyrchir gan gynlluniau DWMP gael ei defnyddio i asesu'n strategol a mynd i'r afael â'r angen am gynnydd cyflym i ddatblygu systemau draenio gwydn, sydd yn eu tro yn diogelu'r amgylchedd ac yn cefnogi pobl ac economi Cymru.

Rydym wedi ceisio adlewyrchu'r Egwyddorion Arweiniol a Fframwaith DWMP (gan gynnwys "PR24 a thu hwnt: Strategaethau cyflawni hirdymor a senarios cyfeirio cyffredin") a gyhoeddwyd gan OFWAT ar 17 Tachwedd 2021.

Rydym yn cydnabod bod allbwn y cylch DWMP cyntaf hwn yn dangos sut y bydd angen i ni ddatblygu'r system ddraenio dros y 25 mlynedd nesaf a'r buddsoddiad sydd ei angen, o ystyried yn benodol effaith newid yn yr hinsawdd a thwf y boblogaeth, yn hytrach na bod yn gynllun diffiniol o'r hyn y byddwn yn buddsoddi ynddo a phryd. Gyda thros 800 o ddalgylchoedd dŵr gwastraff arwahanol yn ein system, bu'n rhaid allosod casgliadau yn seiliedig ar fodelu manwl o sampl o ddalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf (44), sy'n fach o ran nifer ond sy'n cwmpasu 80% o'n poblogaeth. Erbyn yr ail gylch, i'w gyhoeddi yn 2028, rhagwelwn y bydd gennym fodolau manylach ar gyfer ein holl ddalgylchoedd. Fodd bynnag, mae'r cylch anstatudol cyntaf hwn wedi ein galluogi i ddatblygu'r fethodoleg a'r fframwaith cynllunio a fydd yn sail i gylchoedd y DWMP yn y dyfodol, ac ymgynghori arnynt.

Mae casgliadau'r cylch cyntaf hwn o ran yr hyn sydd angen ei wneud i ddarparu system ddraenio gadarn ac osgoi llifogydd a llygredd, hefyd yn seiliedig yn gyfan gwbl ar fodelu hydrologig y sampl o ddalgylchoedd i asesu capasiti'r system. Wrth asesu beth sydd angen ei gynllunio ar gyfer gorlifoedd storm, nid yw'r model, felly, yn adlewyrchu ansawdd y dŵr yn y cwrs dŵr derbyn, ac felly nid yw'n caniatáu i fuddsoddiad mewn gorlifoedd storm gael ei flaenoriaethu ar sail niwed ecolegol, fel sy'n ofynnol gan bolisi Llywodraeth Cymru. Felly, nid yw'n bosibl deillio rhaglen wella AMP8 ar gyfer gorlifoedd storm o'r DWMP, rhywbeth sy'n ofynnol gan Ofwat. Erbyn yr ail gylch, rhagwelwn y byddwn wedi cwblhau'r asesiad o ansawdd dŵr sy'n ymwneud â phob un o'n gorlifoedd storm sy'n gollwng i afonydd, ac wedi datblygu proses i asesu effeithiau ansawdd ar gyfer gollyngiadau arfordirol a bydd y data hyn, felly, yn gallu cael eu cyflwyno i'r modelau sy'n cefnogi'r DWMP, gan ei alluogi i fod yn sail i'r rhaglen buddsoddi mewn gwelliannau ar gyfer cynlluniau AMP dilynol.

Mae'r fethodoleg a ddatblygwyd gennym yn ceisio sicrhau llesiant cwsmeriaid a datblygiad economaidd, gan fodloni gofynion rheoleiddio a chydymffurfio â chyfreithiau amgylcheddol ar yr un pryd er mwyn sicrhau bod ecosystemau'n cael eu diogelu. Er bod ymgysylltu wedi amrywio yn ystod y broses ymgynghori, yn dibynnu ar y gynulleidfa, rydym wedi datblygu proses wybodaeth amlochrog sy'n sicrhau bod ystod eang o randdeiliaid wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y fethodoleg a'r fframwaith cynllunio.

Mae'r gwaith ail-lunio sydd ei angen ar ein rhwydwaith carthffosydd i leihau gorlifoedd storm a'r llifogydd sy'n effeithio ar gwsmeriaid hefyd, ar adeg pan fo newid yn yr hinsawdd yn cynyddu, yn enfawr, felly mae'r DWMP yn nodi dull aml-AMP o ymdrin â'r her hon, a gefnogir gan ein cwsmeriaid.

Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r DWMP fel arwydd o'r cyfeiriad strategol sydd ei angen ar gyfer ein gwasanaethau dŵr gwastraff, yn enwedig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd, a maint y buddsoddiad sy'n debygol dros y 25 mlynedd nesaf. Mae'n cydnabod bod y cylch cyntaf hwn wedi gwneud cynnydd defnyddiol o ran sefydlu methodoleg a fframwaith cynllunio y gellir eu datblygu ymhellach yn yr ail gylch sydd i'w gyhoeddi yn 2028. Mae hefyd yn cydnabod, hyd nes y bydd yr asesiad ecolegol o'r dyfroedd derbyn ar gyfer gorlifoedd storm wedi'i gwblhau, a'r data wedi'u hintegreiddio i'r DWMP ochr yn ochr â modelu hydrolog sylfaenol y system garthffosiaeth, ni fydd y buddsoddiad gwella ar gyfer cynllunio AMP yn gallu deillio o'r DWMP – bwriedir cyflawni hyn ar gyfer AMP9. Bydd y cylch nesaf hefyd yn cwblhau'r gwaith modelu hydrolog o'n 834 o ddalgylchoedd gwastraff ac yn dileu'r angen, fel yn y cylch cyntaf hwn, i allosod yn sylweddol ganlyniadau nifer cyfyngedig o 44 o ddalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf, er eu bod yn cwmpasu 80% o'n poblogaeth.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod y dylai arloesi, a newidiadau o ran rheoleiddio, sicrhau bod atebion amgen i'r buddsoddiadau gofynnol yn bosibl, a fydd yn arwain at gostau ariannol a charbon is, yn enwedig ymgorffori atebion ar sail natur y mae eu cydsyniadau rheoleiddiol yn dal i gael eu datblygu rhwng Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Bwrdd yn nodi'r prosesau sicrwydd a amlinellir isod, gan gynnwys ei ymholiadau i Reolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, diweddariadau rheolaidd a ddarperir i'r Bwrdd, a sicrwydd ar agweddau penodol gan Jacobs. Yn amodol ar y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y ffaith mai cynllun dangosol yw hwn ar hyn o bryd gan fod angen allosod canlyniadau modelu sampl gyfyngedig o ddalgylchoedd a bod diffyg data SOAF cynhwysfawr ar gael ar draws ein poblogaeth gorlifoedd storm, mae'r Bwrdd yn fodlon bod y cynllun yn bodloni'r Egwyddorion Arweiniol fel y'u nodir yn Atodiad 1, a'i fod yn cydymffurfio â Fframwaith DWMP Water UK ac yn ystyried yr arweiniad a'r Canllawiau Strategol diweddar a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## **Proses Sicrwydd**

Defnyddiwyd dull tair llinell o sicrwydd gennym ar gyfer sicrwydd y DWMP. Cynlluniwyd y broses hon i roi'r hyder sydd ei angen ar y Bwrdd i gadarnhau'r Datganiad Sicrwydd hwn:

- Yn y llinell gyntaf, mae'r rheolwyr yn atebol am nodi risgiau ac am reoli'r rhain drwy ddatblygu a chynnal prosesau, systemau a rheolaethau cadarn i gefnogi datblygiad y DWMP.
  - Sesiynau adolygu misol gan Reolwr y DWMP a chan y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Asedau Dŵr Gwastraff, er mwyn sicrhau bod Camau DWMP allweddol yn cael eu cyflawni yn unol â Fframwaith Water UK. Roedd hyn yn cynnwys adolygu a chymeradwyo allbynnau draenio i'r safon gydnabyddedig (ISO9001).
- Darparwyd yr ail linell gan y Grwpiau Llywio mewnol ac allanol perthnasol sydd wedi darparu goruchwyliaeth a her i ddatblygiad y DWMP;
  - Grŵp Llywio Mewnol y DWMP
  - Gwiriadau rheolaidd ar ddatblygiad y Cynllun gan y Grŵp Polisi Draenio (y grŵp traws-fusnes mewnol sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â draenio ar draws ein hardal weithredu a'r gwahanol bolisiau a rheoliadau yng Nghymru a Lloegr).
  - Adolygiad gan y Panel Cynghori Annibynnol ar yr Amgylchedd (IEAP) sy'n elwa ar aelodaeth eang sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid arbenigol eraill fel yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Prifysgolion, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
  - Mae'r modelu manwl sy'n sail i'r DWMP yn cael ei gyflawni gan fodelwyr arbenigol a gyflogir gan ymgynghoriaethau allanol sydd â'u prosesau sicrhau ansawdd eu hunain, lle mae gwaith modelwyr unigol yn cael ei adolygu ar wahân gan fodelwr arall.

- Darperir y drydedd linell gan Swyddogaeth Archwilio Mewnol y Cwmni ar sail risg. Yn ogystal, ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd Archwilio Mewnol adolygiad o' fframwaith llywodraethu PR24 ehangach. Nododd yr adolygiad hwn fod rheolaethau PR24 yn foddhaol gan gwmpasu prosesau llywodraethu ar gyfer paratoi, craffu a chymeradwyo cynllun busnes PR24 yn ffurfiol.
- Yn ogystal â'r tair llinell:
  - Mae'r Bwrdd wedi goruchwyllo'r DWMP, ac wedi cael adroddiadau rheolaidd arno. Mae hyn wedi galluogi Aelodau'r Bwrdd i helpu i lywio dull a chyfeiriad ein Cynllun. Mae'r Bwrdd wedi cael yr adborth adeiladol a gafwyd gan randdeiliaid a chwsmeriaid, yn dilyn ein hymgyngoriad ar y Cynllun drafft, ac wedi rhoi cyfarwyddyd pellach ar ddatblygu ein Cynllun Terfynol yn dilyn hyn. Rhoddodd y bwrdd ystyriaeth benodol i'r DWMP ar:
    - 2 Rhagfyr 2021
    - 1 Mehefin 2022
    - 7 Gorffennaf 2022
    - 1 Rhagfyr 2022
    - 4 Mai 2023
    - 6 Medi 2023
  - Rydym hefyd wedi ymgynghori'n agos â'r Grŵp Her Annibynnol (ICG), awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill megis y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, i ofyn am eu barn ar yr hyn y maent yn ei ystyried yw'r ffactorau pwysig i'w hystyried yn y Cynllun.
  - Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Grŵp Llywio DWMP Cenedlaethol Water UK, gan gynnwys ein Rheoleiddwyr, sydd wedi dylanwadu ar arferion gorau ac ymgysylltu â chwmnïau eraill.
  - Cynhaliwyd ymgynghoriad terfynol ar ein Cynllun drafft am 10 wythnos rhwng 27 Gorffennaf 2022 a 7 Hydref 2022. Aseswyd yr holl ymatebion ac fe'u defnyddiwyd naill ai i ddiwygio'r cynllun cyfredol neu ffurfio cyfeiriad strategol y cylch nesaf.
  - Sicrwydd annibynnol gan Jacobs drwy'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol mewn perthynas â'r cynnydd a gyflawnwyd wrth gyflawni'r DWMP, sydd ynddo'i hun yn un o Fesurau Llwyddiant Ofwat, a gynhaliwyd yn flynyddol.
    - 4 Mai 2021
    - 23 Mai 2022
    - 22 Mai 2023
  - Cynhaliodd Jacobs adolygiad blynyddol hefyd o'r gwaith i gynhyrchu ein mesur MOS FT2 – “Risg o Lifogydd Carthffosydd mewn Storm”. Mae'r mesur hwn yn cofnodi canran poblogaeth y rhanbarth sy'n wynebu risg o lifogydd carthffosydd hydrologig mewnol o 1 storm mewn 50 mlynedd, yn seiliedig ar ragfynegiadau wedi'u modelu. Y mewnbynnau a'r modelau a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r DWMP yw'r un rhai a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r mesur hwn, ac mae'r rhain wedi cael archwiliadau gradd A fel rhan o'r broses APR.

## Sut y gwnaethom Ddatblygu ein Cynllun

Yn ystod y cyfnod dysgu anstatudol hwn, rydym wedi rhoi cryn dipyn o bwyslais ar ddatblygu ein dull Cynllunio Rheoli o ymdrin â'n systemau dŵr gwastraff. Rydym wedi canolbwyntio ar dreialu methodolegau gwahanol a hybu arloesedd i gefnogi ein hargymhellion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol gyda'r disgwyliad y bydd cylchoedd DWMP yn y dyfodol, pan fyddant yn statudol, yn elwa ar gael methodoleg fwy rhagnodol.

Rydym wedi ategu asesiadau a gynhelir fel arfer ar gyfer systemau dŵr gwastraff drwy greu balansau cyflenwad a galw ar gyfer llif tywydd sych a glawiad, rydym wedi hybu dulliau arloesol i ragweld asesiadau ansawdd afonydd amgylcheddol ac rydym wedi cyfuno'r rhain ynghyd â modelu hydrolog i baratoi'r modelau lefel dalgylch ar gyfer cylch 2. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at yr amcan allweddol ar gyfer cynlluniau DWMP a nodir yn Neddff yr Amgylchedd, sef bod cwmnïau yn deall capasiti eu systemau draenio a charthffosiaeth.

Mae'r DWMP yn cynnwys pedair elfen o fewn y cynllun cyffredinol, sef Cynllun Carthffosiaeth – sut mae'r rhwydwaith yn gweithredu o dan amodau arferol, Cynllun Draenio – sut mae'r rhwydweithiau'n ymdopi â glawiad, Cynllun Llifogydd – sut mae'r rhwydwaith yn ymdopi â glawiad eithafol a dŵr wyneb, a Chynllun Caniatâd – sut mae ein hasedau'n rhyngweithio â'u dyfroedd derbyn a sut mae safonau ansawdd yn cael eu gwella drwy adolygu trwyddedau amgylcheddol newydd.

Rydym yn cyhoeddi'r dogfennau canlynol ar ein gwefan:

- 'Prif Gynllun' DWMP
- Crynodeb Technegol ac Annhechnegol
- Dogfen gryno 'Cyfeillgar i Gwsmeriaid'
- Crynodebau Dŵr Gwastraff Lefel 'Dalgylch' ar gyfer y 44 o ddalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf
- Asesiadau Amgylcheddol Strategol a Rheoliadau Cynefinoedd
- Datganiad Ymateb (sy'n nodi sut rydym wedi ystyried sylwadau rhanddeiliaid ar ein Cynllun Drafft)

Wrth ddilyn Fframwaith Water UK ar gyfer datblygu Cynlluniau Draenio a Dŵr Gwastraff, mae pob cam o'r broses ddatblygu, fel y nodir isod, wedi'i sicrhau gan Jacobs fel rhan o'u "Harchwiliad Adolygu Perfformiad Blynyddol"

- Cam 1 – Pennu Cyfeiriad – Y cyd-destun strategol.
- Cam 2 – Asesu Risg
- Cam 3 – Datblygu ac Arfarnu Opsiynau
- Cam 4 – Cyhoeddi'r Ymgynghoriad Drafft
- Cam 5 – Cynhyrchu'r Datganiad Ymateb a'r Cynllun Terfynol.

## Cysoni ag Egwyddorion Arweiniol Ofwat a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i ni o'r cychwyn yn 2019 i gynnal treialon a chynlluniau peilot i gymhwyso'r fframwaith DWMP a'r Cynllun Llifogydd yng Nghymru, ac i fabwysiadu egwyddorion Cymru ar y Cyd. Roedd hwn yn gyfarwyddyd ychwanegol at yr egwyddorion a nodir ar gyfer DWMP yn adran 94A Bil yr Amgylchedd Adran (3) (a i g).

*(3) A drainage and sewerage management plan must address in particular;*

*a. the capacity of the undertaker's drainage system and sewerage system,*

- b. *an assessment of the current and future demands on the undertaker's drainage system and sewerage system,*
- c. *the resilience of the undertaker's drainage system and sewerage system*
- d. *the measures the undertaker intends to take or continue for the purpose in subsection (2) A drainage and sewerage management plan is a plan for how the sewerage undertaker will manage and develop its drainage system and sewerage system so as to be able and continue to be able to meet its obligations under this part.*
- e. *the likely sequence and timing for implementing those measures,*
- f. *relevant environmental risks and how those risks are to be mitigate, and*
- g. *any other matters specified by the Minister in directions.*

Rydym wedi cynnal adolygiadau cyfnodol o'n Cynllun ac wedi adolygu'r Cynllun terfynol cyn ei gyhoeddi. . Yn amodol ar y cyfyngiadau sydd ynghlwm wrth y ffaith mai cynllun dangosol yw hwn ar hyn o bryd gan fod angen allosod canlyniadau modelu sampl gyfyngedig o ddalgylchoedd a bod diffyg data SOAF cynhwysfawr ar gael ar draws ein poblogaeth gorlifoedd storm, ein barn ni yw bod ein Cynllun terfynol yn bodloni Egwyddorion Arweiniol Ofwat (a gyhoeddwyd yn 2022). I gydnabod yr egwyddorion hyn, ac yn amodol ar y cyfyngiadau hyn, rydym yn rhoi sicrwydd bod ein Cynllun;

1. Yn gynhwysfawr, wedi'i seilio ar dystiolaeth ac yn dryloyw, yn cyd-fynd â dulliau eraill o gynllunio strategaethau a pholisïau ac yn cydymffurfio â Fframwaith DWMP Water UK.
2. Yn ymdrechu i ddarparu systemau gwydn sy'n bodloni pwysau gweithredol ac yn lleihau methiannau mewn systemau, ac yn cynnwys gweithgarwch gweithredol a gweithgarwch i ddiogelu ein hasedau gweithredu rhag digwyddiadau eithafol, yn enwedig llifogydd.
3. Yn ystyried effaith systemau draenio ar ganlyniadau amgylcheddol uniongyrchol a chanlyniadau ehangach, ac yn datblygu atebion sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gynnydd a gwelliannau net amgylcheddol.
4. Yn gydweithredol, yn rhoi pwyslais ar fuddion gweithio mewn partneriaeth ac yn cyd-fynd â'r gwaith parhaus rydym yn ei wneud ar faterion fel Gorlifoedd Storm, Ffosfforws a Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol.
5. Yn darparu arweiniad i'r sector dŵr yng Nghymru ar ein dull o reoli ein systemau dŵr gwastraff dros y cyfnod o 25 mlynedd, gan ddangos cydweithio ar draws fframweithiau cynllunio strategol eraill hefyd, megis y Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.
6. Yn gwella canlyniadau i gwsmeriaid ac ymwybyddiaeth o'n cynlluniau a'n buddsoddiad ar gyfer y dyfodol, a ategir gan yr allbynnau ymgysylltu ac ymchwil cwsmeriaid.

Rydym yn cydnabod canllawiau Ofwat a ddarparwyd i gwmnïau ym mis Ebrill 2022, sy'n nodi y dylai'r DWMP lywio'r Adolygiad o Brisiau (proses PR24) mewn perthynas â buddsoddi mewn dŵr gwastraff. Mae ein gallu i gyflawni'r math hwn o gynllun a chanlyniad wedi'i gyfyngu gan y cwmpas modelu sydd gennym ar draws ein hardal weithredol a'r ffordd rydym wedi datblygu'r cynllun, gan ganolbwyntio ar ardaloedd llifogydd yn hytrach nag ansawdd dŵr afonydd.

At hynny, gan mai asesiad ar sail niwed ecolegol rydym yn ei gynnal yn hytrach nag asesiad ar sail gollyngiadau o orlifoedd storm, nid oedd gorlifoedd storm yn rhan o'r modelu hydrologig, gan mai yn ôl niwed yn hytrach na llif y pennir buddsoddiad ynddynt yng Nghymru. Felly, nid oes yr un cysylltiad rhwng y DWMP a buddsoddiad PR24 ag sy'n wir am gwmnïau yn Lloegr lle mae cynllun i gyfyngu ar orlifoedd storm sy'n gorlifo'n aml yn golygu deall, ac yna mynd i'r afael â'r llifau sy'n deillio o fodellu


hydrolig y DWMP. Byddwn yn ceisio ymgorffori data niwed sy'n deillio o'r broses SOAF wrth ddatblygu ein DWMP nesaf erbyn 2028.

Gan gydnabod y rôl sydd gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu ein DWMP a'r egwyddorion arweiniol rydym wedi seilio'r cynllun arnynt, rydym hefyd yn fodlon bod ein DWMP yn adlewyrchu Canllawiau Strategol Llywodraeth Cymru a bennwyd i ni ym mis Awst 2023 a'i fod wedi'i gynhyrchu yn unol â'r ymddygiadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ganlyniadau Llesiant Llywodraeth Cymru. Yn olaf, mae ein Cynllun yn nodi sut y byddwn yn cyflawni yn erbyn ein rhwymedigaethau o dan Adran 79 o Ran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 sy'n gweithredu'r Cynllun Rheoli Draenio a Charthffosiaeth (DSMP, ond mae hwn yr un fath â'n DWMP) ar gyfer Cymru a Lloegr ac mae'r rhwymedigaeth hon i'w chynnwys yn Adran 94A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Llofnodwyd  
Prif Swyddog Gweithredol



Llofnodwyd  
Cadeirydd y Bwrdd



## Atodiad 1 – Cysoni â'r Egwyddorion Arweiniol ar gyfer DWMP

Egwyddor Arweiniol	Sut rydym wedi ymgorffori'r rhain yn ein cynllun
<p>1. <i>Bod yn gynhwysfawr, wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn dryloyw wrth asesu, cyn belled ag y bo modd, y capasiti presennol a'r camau y mae angen eu cymryd mewn cyfnodau o 5, 10 ac isafswm o 25 mlynedd, gan ystyried risgiau a materion fel newid yn yr hinsawdd. Dylai'r cynlluniau gyd-fynd hefyd, cyn belled ag y bo modd, â dulliau eraill o gynllunio strategaethau a pholisïau.</i></p>	<p>Mae cydymffurfedd â'r Egwyddor Arweiniol hon o reidrwydd wedi'i gyfyngu gan yr angen i seilio'r DWMP ar allosod sampl sy'n cynnwys y 44 o ddalgylchoedd â'r flaenoriaeth uchaf yn hytrach na'i fod yn cynrychioli allbwn cwmpas modelu cynhwysfawr ar draws pob un o'r 834 o ddalgylchoedd.</p> <p>Wrth baratoi'r modelau sampl, rydym wedi cynnal sawl asesiad capasiti lefel uchel ac rydym wedi defnyddio amrywiaeth o senarios hinsawdd, yn amrywio rhwng RCP2.6 ac 8.5. Rydym wedi defnyddio'r dull galw a chyflenwad fel y cam cyntaf i benderfynu a all y gwaith trin dŵr gwastraff ymdopi â chyfanswm cyfaint y rhwydwaith yn ystod llif tywydd sych. Cynhelir yr asesiad hwn bob pum mlynedd rhwng 2020 a 2050. Yn ogystal, rydym wedi cynnal yr un asesiad gan ddefnyddio pedair senario stormydd gwahanol yn ein gwaith modelu ar gyfer yr un cyfnodau, gan ymgorffori gostyngiadau o ran Twf a Galw o'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr i gyd-fynd â'r blaenoriaethau a amlinellwyd mewn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.</p>
<p>2. <i>Ymdrechu i ddarparu systemau gwydn - a fydd yn bodloni pwysau gweithredol a phwysau eraill ac yn lleihau methiannau mewn systemau.</i></p>	<p>Mewn ymateb i adborth gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid, rydym wedi ymgorffori byfferau gweithredol yn ein cynllun drwy gynyddu capasiti ein rhwydwaith. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb yn gyflym a lleihau unrhyw broblemau y mae ein cwsmeriaid yn eu hwynebu cymaint â phosibl. Rydym wedi archwilio dulliau gweithredu er mwyn gallu modelu gwahanol lefelau o wasanaeth ar gyfer ein cwsmeriaid, megis lefelau amddiffyn rhag llifogydd yn ogystal ag asesu lle ar draws y rhwydwaith. Rydym wedi ymrwymo i asesu senarios yn fanylach yng nghylchoedd y Cynllun yn y dyfodol, a fydd yn ein helpu i wella ein dealltwriaeth o'r effeithiau ar gostau ac atebion ar draws ein hardal weithredu.</p>
<p>3. <i>Ystyried effaith systemau draenio ar ganlyniadau amgylcheddol uniongyrchol ac ehangach, gan gynnwys cynefinoedd ac wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer mesurau ataliol i gynnwys ystyried enillion net a gwelliannau amgylcheddol</i></p>	<p>Rydym wedi ystyried a yw'r fframwaith yn cefnogi datblygu opsiynau y gellir eu hariannu ar gyfer mesurau ataliol. Rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno dull Adolygu Caniatadau ar lefel dalgylich. Gall cyflwyno'r dull hwn gyda chymorth ein rheoleiddiwr amgylcheddol ddwyn ynghyd ffordd fwy deinamig o edrych ar y manau lle nad yw trwyddedau amgylcheddol presennol yn diogelu'r amgylchedd, ac mae angen i ni adolygu'r amodau hynny wrth i ni ragweld newid mewn amodau derbyn (llifoedd isel) a thwf yn y boblogaeth yn y dalgylchoedd.</p>
<p>4. <i>Bod yn gydweithredol - gan gydnabod pwysigrwydd cydweithio rhwng sectorau i ystyried risgiau ac anghenion y presennol a'r dyfodol ac</i></p>	<p>Drwy gydol y broses o ddatblygu ein cynllun, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol. Cafodd pob Awdurdod Lleol yn ein hardal weithredu fersiynau drafft o'n cynllun ac fe'u hanogwyd i ymgynghori a rhoi sylwadau.</p>

<p><i>i ddarparu atebion effeithiol, gan nodi sut y byddan nhw'n gwneud hyn, sut maen nhw wedi ymgysylltu â'r rhanddeiliaid ac wedi ymateb iddyn nhw.</i></p>	<p>Drwy'r rhyngweithiadau hyn, rydym wedi cael gwybodaeth werthfawr am sut y gallwn gydweithio i sicrhau'r buddion gorau posibl o'r DWMP ar gyfer ein sefydliadau a'n cymunedau priodol. Rydym hefyd wedi nodi rhwystrau y mae angen mynd i'r afael â hwy, megis cyfyngiadau cynllunio. Er ein bod yn cydnabod bod cydweithio yn gofyn am amser ac adnoddau (gan gynnwys staff), rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ein nodau cyffredin. Byddwn yn parhau i arwain y gwaith o ddatblygu cyfleoedd a lle bo cyfleoedd yn gorgyffwrdd, byddwn yn ceisio datblygu atebion yn gynharach.</p>
<p><i>5. Dangos arweinyddiaeth - wrth ystyried y darlun mawr ar gyfer capasiti gweithredol sefydliad i ddatblygu a chyflawni'r cynllun, ac ystyried cysylltiadau â fframweithiau cynllunio strategol eraill.</i></p>	<p>Fel rhan o'n hymdrechion i wella cynlluniau draenio, rydym wedi arwain y gwaith o ddatblygu Rhaglen Ddraenio Genedlaethol. Byddwn yn ymgymryd â rôl rheoli prosiect fel y prif arweinydd cynllunio ar gyfer elfennau penodol o'r cynllun hwnnw. Yn ogystal, byddwn yn cefnogi deddfwriaeth newydd i sefydlu swyddogaeth gynllunio hirdymor ar y cyd, a fydd yn ein galluogi i baratoi piblinellau o atebion ymhell cyn eu cyflawni. Drwy wneud hynny, gallwn helpu i fodloni gofynion ariannu cyffredinol y Llywodraeth ar gyfer draenio.</p>
<p><i>6. Gwella'r canlyniadau i gwsmeriaid ac ymwybyddiaeth cwsmeriaid a sicrhau bod atebion a chomau yn rhoi gwerth am arian ac yn ystyried manteision i'r gymdeithas.</i></p>	<p>Rydym wedi treialu ein dull gweithredu, ac erbyn hyn mae gennym fethodoleg a fydd yn dangos i gwsmeriaid y lleoliadau lle mae angen cynlluniau er mwyn bodloni eu gofynion a'u disgwyliadau o ran osgoi llygredd a llifogydd. Mae ein methodoleg yn ystyried nodweddion unigryw pob ardal ac yn argymhell atebion sydd fwyaf addas i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol. Mewn rhai achosion, gall atebion traddodiadol fod yn briodol. Gall ardaloedd eraill gael budd o ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy, ecogyfeillgar. Asesir yr atebion hyn ar sail eu heffeithiolrwydd o ran cost a'u buddion posibl i gymdeithas. Rydym yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r fethodoleg hon gyda phob dalgylch a gwmpesir gan fodolau erbyn cwblhau'r ail gylch.</p>
<p><i>7. Yn achos cwmnïau Cymru, dylai'r cynlluniau ddangos hefyd sut y cawson nhw eu datblygu yn unol â'r ymddygiadau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a sut y byddan nhw'n cyfrannu at y deilliannau llesiant. Dylai'r cynlluniau nodi hefyd sut y byddan nhw'n helpu'r cwmnïau dŵr a'u rhanddeiliaid i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.</i></p>	<p>Rydym wedi gweithio ar y cyd â'n rhanddeiliaid i chwilio am atebion hirdymor a rennir er budd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac wedi sicrhau cynwysoldeb o ran y rhanddeiliaid a'r cwsmeriaid rydym wedi cydweithio â nhw. Roedd ein hymchwil cwsmeriaid yn cynnwys trawstoriad eang o gymdeithas; mae ein deunyddiau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu mewn fformatau sydd ar gael i bawb, ac yn Gymraeg ac yn Saesneg. O ran Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rydym wedi ystyried y ffordd orau o reoli llif yn y rhwydwaith carthffosiaeth drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan geisio targedu ac atal niwed amgylcheddol a delio â dŵr storm yn y ffordd fwyaf cynaliadwy.</p>